

Myfyrdod

Dyna deimlad braf yw cyfnod yr Adfent, yn gwybod fod y Nadolig yn agosau. Daw cyfnod ewyllys da a thangnefedd. Cyfnod i fod gyda'r rhai sy'n anwyl i ni, i roi a derbyn anrhegion. Cyfnod i gofio, a chofio am y rhai sy'n absenol. Amser i ymlacio am ychydig - o brysurdeb bywyd - cyn i'r syrcais ail-ddechrau'n y Flwyddyn Newydd.

Wrth gwrs, mae genym ni gyd ein gofidion. Ond dyna lwcus ry'n ni y Nadolig hwn. Teuluoedd a ffrindiau cariadus, cartrefi cysurus, cymuned a Chymreictod Dyffryn Clwyd – ac angor a chynghor y capel. Hawdd anghofio **pa** mor lwcus ry'n ni, o gymharu â miloedd o'n cyd-drigolion. Wrth ddathlu'r Nadolig hwn, dyna **wych** fyddai gallu rhanu ychydig o'n llawenydd ni, er ysgafnhau tristwch eraill yn ein byd.

Mae'r Nadolig yn amser rhyfedd. Mae Stori'r Geni'n rhyfedd. Ond mae arwyddocad y stori'n rhyfeddach: **geni babi bach** yn obaith, yn ysbrydoliaeth, yn arweiniad i bob yr un ohonom. Mae'r rhan fwyaf ohonom wedi profi'r wefr, fel rhieni, ar enedigaeth mab neu merch. Y llawenydd, y rhyddhad, y cyfrifoldeb. Y fendith a'r fraint o ddod â bywyd newydd i'r greadigaeth anhygoel ry'n ni'n rhan ohoni.

Geni babi bach. Nid coroni brenin, nag ethol prifweinidog, na buddugoliaeth cadfridog mewn rhyfel, na phenodi penaeth newydd ar gwmni rhyngwladol. Nid enill y loteri, na'r Aparentis, na'r Xffactor. Nid llwyddiant personol. Jyst geni babi bach.

Geni babi yn gyfle i edrych o'r newydd arnom ni ein hunain, i adfywio'n hunain – i ad-eni'n hunain. Geni babi yn gyfle i drosglwyddo llawenydd ac ewyllys da'r Nadolig i **bob** Blwyddyn Newydd o'n bywydau. Yn gyfle i ni gerdded o'r newydd yn ol traed y Nasaread, i drechu **drygioni** trwy wneud **daioni**.

Wedyn bydd cariad yn enill y dydd.

*Mae'n cyngor yn y stori - am aur,
Thus, a myrr; a chwmni
Hwyr y nos. I'n harwain ni
Daw un a dawn ad-eni.*

*Ar gamre'r Nasaread, â baban
Bach, un gwan, yn genad;
Cawn wynfyd ym mywyd mad:
Ni rhagorwn ar gariad.*